## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042 (CYLCHFAN PONT-Y-PŴL, TORFAEN I GYFFORDD LITTLE MILL, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU A BEICWYR DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4042, neu gerllaw iddi, o Gylchfan Pont-y-pŵl i Gyffordd Little Mill yr A472 yn Sir Torfaen a Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) a beiciwr rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A4042 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd.

Bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, mewn grym ac yn weithredol dros nos (20:00 o'r gloch - 06:00 o'r gloch) rhwng 28 Mawrth 2022 a 1 Ebrill 2022, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A4042 TRUNK ROAD (PONTYPOOL ROUNDABOUT, TORFAEN TO LITTLE MILL JUNCTION, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES AND CYCLISTS) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4042 trunk road from Pontypool Roundabout to the A472 Little Mill Junction in the Counties of Torfaen and Monmouthshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works) and cyclists from proceeding on the lengths of the A4042 trunk road specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in that Schedule.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, will be in force and operate overnight (20:00 hours - 06:00 hours) from 28 March 2022 until 1 April 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLEN

### Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill

1. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o Gylchfan Pont-y-pŵl i Gylchfan Mamheilad.

2. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o Gylchfan Court Farm hyd at bwynt 15 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A472 i Little Mill.

Y llwybr arall ar gyfer traffig trwodd sy'n dymuno teithio tua'r gogledd ar yr A4042 o fan i'r de o'r darn o'r gefnffordd sydd ar gau fydd mynd ar yr A4042 tua'r de i Gyffordd 25A Grove Park yr M4, yr M4 tua'r dwyrain i Gyffordd 24 Coldra, yr A449 tua'r gogledd i Raglan a'r A40 tua'r gorllewin i'r Fenni.

Y llwybr arall ar gyfer traffig nad yw'n mynd ar y draffordd o Grove Park fydd parhau ar yr A4042 tua'r de i Usk Way, ymuno â Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 tua'r dwyrain i Gyfnewidfa Coldra, yna dilyn y prif lwybr dargyfeirio uchod.

I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n dymuno teithio tua'r de ar yr A4042 o fan i'r gogledd o'r darn o'r gefnffordd sydd ar gau.

Bydd mynediad ar gyfer traffig lleol ar gael ar yr A4042 hyd at y mannau cau, a chodir arwyddion yn unol â hynny.

Bydd traffig ar y ffyrdd ymyl a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol y bydd cau'r gefnffordd yn effeithio arno yn cael ei ddargyfeirio neu ei reoli drwy'r gwaith yn unol â gofynion yr Awdurdod Lleol perthnasol.

## SCHEDULE

### Prohibition of Vehicles & Cyclists and Alternative Routes

1. The length of the trunk road that extends from Pontypool Roundabout to Mamhilad Roundabout.

2. The length of the trunk road that extends from Court Farm Roundabout to a point 15 metres south-west of the centre-point of its junction with the A472 to Little Mill.

The alternative route for through traffic wishing to travel north on the A4042 from south of the closure will be via the A4042 southbound to M4 J25a Grove Park, M4 eastbound to J24 Coldra, A449 northbound to Raglan and the A40 westbound to Abergavenny.

The alternative route for non-motorway traffic from Grove Park will be to continue on the A4042 southbound to Usk Way, join the A48 Southern Distributor Road eastbound to Coldra Interchange, then follow the main diversion route above.

Vice versa for traffic wishing to travel south on the A4042 from north of the closure.

Access for local traffic will be maintained and signed along the A4042 up to the points of closure.

Traffic on the Local Authority maintained side roads affected by the closures will be diverted or managed through the works in accordance with the relevant Local Authority's requirements.